**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Sarah Murphy AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Copi i Russell George MS, Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
Sioned Williams AS, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu

9 Ionawr 2025

Annwyl Weinidog,

**Deiseb P-06-1479 Stopio cadw plant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth mewn ysbytai.**

Bu'r Pwyllgor Deisebau yn trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Stolen Lives, yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr.

Llongyfarchodd y Pwyllgor y deisebwyr am eu dyfalbarhad wrth ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac Aelodau unigol o'r Senedd ar y mater hollbwysig hwn. Ddydd Mercher 4 Rhagfyr, tynnais sylw at y ddeiseb yn y ddadl gan Aelod ar leoliadau gofal ar gyfer awtistiaeth ac anabledd dysgu.

Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i rannu sylwadau'r deisebwyr a gofyn am ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn y cyfarfod, gan gynnwys:

- egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr ymgyrchwyr yn ei gwaith ar ôl i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyflwyno ei adroddiad;

- pa gynnydd sy'n cael ei wneud i ymdrin â'r materion o ran data;

- yr angen am gynllun cyfathrebu i ddeall yn well pa gynnydd sy'n cael ei wneud;

- ac ymateb i'r pwyntiau a wnaed ynghylch effaith cau gwasanaethau cleifion mewnol a diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Cytunodd y Pwyllgor i anfon copi o’r ohebiaeth hon at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Anabledd Dysgu er gwybodaeth iddynt.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1479 Stopio cadw plant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth mewn ysbytai.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb dros e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Carolyn

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.